Y CABINET – DYDD MAWRTH, 10 RHAGFYR 2024

COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG , STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD MAWRTH, 10 RHAGFYR 2024 AM 14.30.

Presennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

N Farr	J Gebbie	HM Williams	E L P Caparros
P Davies	M J Evans	M Jones	

Presennol yn Rhithwir

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Dim.

Swyddogion:

Oscar Roberts	Prentis Gweinyddu Busnes – Y Gwasanaethau Democrataidd
Stephen Griffiths	Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Carys Lord	Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid
Claire Marchant	Cyfarwyddwr Corfforaethol – Y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Janine Nightingale	Cyfarwyddwr Corfforaethol – y Cymunedau
Kelly Watson	Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheolaethol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol
Mark Shephard	Y Prif Weithredwr
Lindsay Harvey	Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc
Paul Miles	Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol
Helen Pembridge	Prif Swyddog Tai / Llygredd, Bro Morgannwg
Jonathan Parsons	Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Datganiadau o Fuddiannau

Gwnaed y datganiadau canlynol o fuddiannau:-

- Datganodd y Cyng N Farr fuddiant personol yn eitem 5 gan fod yr adroddiad yn sôn am deithio llesol ar heol Newton Nottage, peth y mae hi wedi bod yn ymgyrchu drosto ers iddi gael ei hethol.
- Datganodd y Cyng M Evans fuddiant personol yn eitem 4 fel Llywodraethwr Ysgol yn Ysgolion Cyfun Croesty a Phencoed.
- Datganodd y Cyng M Evans fuddiant rhagfarnus yn eitem 5 gan fod yr adroddiad yn cyfeirio at bont Penprysg. Gadawodd y Cyng Evans y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.
- Datganodd y Cyng J Spanswick fuddiant personol yn eitem 5 gan fod yr adroddiad yn cyfeirio at Gyffordd Singleton ym Mracla.
- Datganodd y Cyng E Caparros fuddiant personol yn eitem 5 gan fod yr adroddiad yn cyfeirio at Gyffordd Singleton ym Mracla, sydd yn ei ward ef.

408. Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol 2023/24

Y Penderfyniad Wnaed	Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol – y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles adroddiad oedd yn crynhoi'r gweithgareddau diogelu oedd yn digwydd ar draws y Cyngor, gan nodi lefel uchel o atgyfeiriadau a newidiadau sylweddol i gynnwys atgyfeiriadau oedolion a phlant, ynghyd ag integreiddio timau a meysydd gwasanaeth newydd i mewn i'r Gyfarwyddiaeth. Gofynnodd y Cabinet gwestiynau ar y pynciau canlynol: • Cynnwys yr atgyfeiriadau. • Defnydd y Cyngor o staff asiantaeth. • Unrhyw berthynas rhwng cam-drin a gwahardd o'r ysgol. • Monitro plant y tu allan i gymunedau'r ysgol. • Gweithredu systemau newydd fel rhan o'r Fframwaith Diogelu Corfforaethol • A all y Cyngor drefnu rhagor o fecanweithiau i gefnogi teuluoedd agored i niwed y tu hwnt i'r rhai y mae deddfwriaeth yn ei orfodi. • Mynediad at agwedd o'r adroddiad oedd yn ymdrin â Chynlluniau'r Dyfodol a Seiberdroseddu. Atebwyd y cwestiynau hyn gan Gyfarwyddwr Corfforaethol – Y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles a chytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc, i ddosbarthu cyflwyniad ar Seiberdroseddu i'r Aelodau.

	PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol 2023/24, gan ddiolch i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a swyddogion eraill am lunio'r adroddiad. Nododd y Cabinet ymhellach y dylid cydnabod gwaith y Cyngor fel yr arfer gorau a thynnu sylw at yr angen i ddiogelu fod o gymorth i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	10 Rhagfyr 2024

409. Trefniadau Cydlynol Derbyn i Ysgolion 2027-2028

Y Penderfyniad Wnaed	Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'r Trefniadau Cydlynol Derbyn i Ysgolion ar gyfer 2027-2028 ac yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus ar y trefniadau er mwyn caniatáu ar gyfer unrhyw sylwadau neu eglurhad gan randdeiliaid a thrigolion. Gofynnodd Aelodau'r Cabinet gwestiynau ynghylch unrhyw newidiadau o adroddiad y flwyddyn flaenorol, trefniadau'r Cyngor ar gyfer darpariaeth Gymraeg, manylion am ddalgylch ysgolion a dyddiadau cau ar gyfer derbyniadau i ysgolion. Atebwyd y cwestiynau hyn gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Trefniadau Cydlynol Derbyn i Ysgolion 2027-2028 (fel y manylir arnynt yn Atodiad A i'r adroddiad), gan ddiolch i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc a'i dîm am lunio'r adroddiad.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	10 Rhagfyr 2024

410. Prosiectau Cludiant Strategol

Y Penderfyniad Wnaed	Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol – y Cymunedau adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y rhestr o brosiectau parhaus a'r rhai cynlluniedig oedd wedi eu bwriadu i wella cysylltiadau cludiant o amgylch y Fwrdeistref, gan nodi nad oes arian wedi' cael ei rwymo ar hyn o bryd ar wahân i gyllid Llywodraeth Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gyfer prosiectau presennol o fewn

	Cyllideb Gyfalaf y Cyngor. Nododd y Cyfarwyddwr hefyd mai un prosiect yn unig y gellir ei enwebu ar gyfer cyllid fesul awdurdod yn 2025-26. Gofynnodd y Cabinet gwestiynau ar y pynciau a ganlyn: Trefniadau teithio estyniad Stryd y Doc, eglurder ynghylch Cyffordd Singleton ym Mracla, a allai prosiectau tai presennol gyfrannu at brosiectau cludiant, uchelgeisiau realistig prosiectau presennol a sut i gyfleu cymhlethdod prosiectau i'r cyhoedd. Atebwyd y cwestiynau hyn gan Gyfarwyddwr Corfforaethol – y Cymunedau a Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu, gan nodi y byddai ar rai prosiectau angen cyllid hyd at lefel Llywodraeth Cymru neu'r Llywodraeth ganolog i fod yn ddichonadwy. PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet: 1. Wedi ystyried y wybodaeth yn yr adroddiad ac wedi nodi'r cynnydd ar y Rhaglen Teithio Llesol a Metrolink Porthcawl. 2. Yn cymeradwyo'r rhestr o brosiectau teithio llesol a amlinellir ym mharagraffau 3.3.7 – 3.3.9 i fynd ymlaen fel cynlluniau ar gyfer Prosiectau Cyfalaf, Cynlluniau Datblygu Craidd a Chynllun Mân Waith fel bidiau yn rhaglen gyllido 2025/26 Llywodraeth Cymru. 3. Yn gohirio gwaith pellach ar gynllun Teithio Llesol Cilgant Myrddin tra'n disgwyl am waith datblygu ac ymgynghori pellach. 4. Yn cymeradwyo'r prosiectau teithio llesol a chludiant strategol arfaethedig fel y nodwyd yn yr adroddiad, i'w cynnwys fel rhan o unrhyw geisiadau yn y dyfodol i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd neu gyfleoedd ariannu eraill yn ogystal â'u cynnwys yn y Cynllun Cludiant Rhanbarthol. 5. Yn cymeradwyo'r prosiectau a nodwyd yn yr adroddiad i fod yn sail i drafodaeth gyda chyrff cludiant allanol eraill ynghylch blaenoriaethau cludiant strategol cenedlaethol a rhanbarthol. 6. Yn cymeradwyo mewn egwyddor y gwaith sydd ei angen i ganiatáu i Lwybr Cymunedol Cwm Garw ddychwelyd i ddefnydd gweithredol yn y tymor byr yn amodol ar gyllid, ac mewn egwyddor i ymgymryd â'r brydles a rheolaeth weithredol y llwybr yn y tymor hwy yn amodol ar ymchwiliad helaeth i'r safle, costau'n cael eu paratoi, cyllidebau yn cael eu nodi a'u hadrodd yn ôl i'r Cabinet i'w cymeradwyo'n ffurfiol. 7. Yn nodi y bydd angen cyflwyno unrhyw gynlluniau cyfalaf yn y dyfodol i'r Cyngor i'w cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf. Diolchodd y Cabinet ymhellach i Gyfarwyddwr Corfforaethol – y Cymunedau a Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu am eu gwaith yn llunio'r adroddiad. Eglurodd y Cabinet fod yr

	adroddiad yn uchelgeisiol oherwydd heriau refeniw parhaus ond nododd yr angen i wneud gwaith ar y prosiectau arfaethedig hyn ac ymrwymodd i barhau i wthio dros y prosiectau hyn pan fydd hyfywedd ariannol yn caniatáu.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	10 Rhagfyr 2024

411. Polisi Gweithio Hyblyg

Y Penderfyniad Wnaed	Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol adroddiad yn amlinellu newidiadau, yn unol â deddfwriaeth, i Bolisi Gweithio Hyblyg y Cyngor, ynghyd ag adborth gan wasanaethau ac undebau llafur, oedd hefyd yn cynnwys newidiadau i gymhwysedd a meini prawf ar gyfer gwneud ceisiadau i newid statws gweithiwr. Gofynnodd y Cabinet gwestiwn ynghylch statws amser i ffwrdd yn lle amser a weithiwyd, a gafodd ei egluro fel rhan o Bolisi ar wahân y Cyngor ar Absenoldeb. PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi Gweithio Hyblyg diwygiedig, gan obeithio y bydd gwelliannau pellach yn dod oddi wrth y Llywodraeth i bobl sy'n gweithio.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	10 Rhagfyr 2024

412. Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi

Y Penderfyniad Wnaed	Cyflwynodd Prif Swyddog – y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, AD a Pholisi Corfforaethol adroddiad yn amlinellu i'r Cabinet yr Adroddiadau Gwybodaeth a gyhoeddwyd ers y cyfarfod diwethaf, sef Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Cymru 2023/24. PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cydnabod cyhoeddi'r adroddiadau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 3.1 o'r adroddiad eglurhaol.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	10 Rhagfyr 2024

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

413. Eitemau Brys

Y Penderfyniad Wnaed	Nid oedd eitemau brys.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	10 Rhagfyr 2024

414. Gwahardd y Cyhoedd

Y Penderfyniad Wnaed	PENDERFYNWYD:	Nad yw'r eitem ganlynol i gael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 13 o Ran 4, Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007. Os bydd y Cabinet, yn dilyn cymhwyso prawf lles y cyhoedd, yn penderfynu yn unol â'r Ddeddf i ystyried yr eitem hon yn breifat, bydd y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	10 Rhagfyr 2024	

415. **Prynu'n Orfodol Eiddo Problemus sy'n Wag Erstalwm**

Y Penderfyniad Wnaed	Nid yw'r penderfyniad wnaed yn gysylltiedig â'r eitem hon ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd gan fod yr adroddiad wedi ei eithrio.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	10 Rhagfyr 2024